YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

CYNLLUN STRATEGOL 2005-2010

RHOI DEFNYDDWYR YN GYNTAF

Ein bwriad

Byddwn yn amddiffyn defnyddwyr drwy wella diogelwch bwyd a thrwy roi gwybodaeth gywir a chlir. Byddwn yn ei gwneud yn haws i bawb ddewis diet iach.

Ein gwerthoedd craidd:

- **rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf**
- **bod yn agored a hygyrch**
- **bod yn llais annibynnol**

Ein nodau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw:

Diogelwch bwyd:

- parhau i leihau salwch a achosir gan fwyd
- lleihau ymhellach y peryglon i ddefnyddwyr gan halogi bwyd yn gemegol[1]

Bwyta'n Iach:

- eu gwneud yn haws i'r holl ddefnyddwyr ddewis diet iach, gan wella ansawdd bywyd drwy leihau afiechyd sy'n ymwneud â diet

Dewis:

- galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau deallus

Ein nod yw parhau i fod y darparwr cyngor annibynnol am ddiogelwch a safonau bwyd yn y Deyrnas Unedig y bydd pobl yn ymddiried ynddo fwyaf, ac ennill yr ymddiriedaeth honno drwy'r hyn a wnawn a sut y gwnawn hynny.

[1] Gan gynnwys halogi radiolegol

Rhagair y Cadeirydd

Bum mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyda'r dasg o wella hyder y cyhoedd mewn diogelwch bwyd yn y DU. Yn sgil argyfyngau bwyd y 1990'au, rydym wedi ymrwymo i weithredu er lles y cyhoedd yn unig, gan roi defnyddwyr yn gyntaf.

Roeddem yn credu mai eglurder oedd yr allwedd i adfer hyder y cyhoedd. O'r cychwyn, gwnaed yr holl benderfyniadau am bolisïau bwyd mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd a oedd yn agored i'r cyhoedd. Pryd bynnag y byddem yn cynghori Gweinidogion ynghylch diogelwch bwyd, byddai'r cyngor hwnnw'n agored i'r cyhoedd. Byddem yn cyhoeddi'r dystiolaeth y seiliwyd ein penderfyniadau arni. Roeddem yn gwarchod ein hannibyniaeth yn ofalus.

Bum mlynedd yn ddiweddarach, nid yw diogelwch bwyd yn cael ei weld fel un argyfwng ar ôl y llall. Gall ein cyngor gael ei gwestiynu o bryd i'w gilydd, ond nid yw pobl yn gwrthod ei gredu.

Er bod pryder y cyhoedd ynghylch diogelwch bwyd wedi lleihau a hyder cyhoeddus yn yr ASB fel pe bai wedi cynyddu, rhaid i ni beidio â chymryd y naill na'r llall yn ganiataol. Os aiff rhywbeth o'i le, mae'n rhaid i ni fod yn agored, darganfod pam y digwyddodd, a dysgu'r gwersi a'u rhannu. Mae'n rhaid i ni barhau'n wyliadwrus, gan beidio byth â cholli ein ffocws ar ddiogelwch bwyd.

Roedd lleihau gwenwyn bwyd 20% yn un o'n targedau uchelgeisiol cynnar. Rydym mewn sefyllfa dda i gyflawni hyn. Rydym wedi ymchwilio i 2800 o ddigwyddiadau, ac wedi gweithredu i'w hatal rhag bygwth diogelwch bwyd. Rydym wedi adolygu rheolaethau BSE yn gyhoeddus, gan ddefnyddio tystiolaeth wyddonol arbenigol, ac wrth wneud hynny, rydym wedi cydnabod yr ansicrwydd sy'n parhau ynghylch y clefyd.

Rydym wedi ceisio bod yn ffynhonnell cyngor i ddefnyddwyr allu ymddiried ynddi, drwy roi gwybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Boed hynny yn fuddion pysgod oeliog, faint o goffi i'w yfed yn ystod beichiogrwydd neu sut i wneud pecyn bwyd iach, rydym yn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau iach bob dydd.

Fel corff diogelu'r cyhoedd, mae'n rhaid i ni gydbwyso'r holl risgiau bwyd, ac mae'n amlwg bod diet yn fater iechyd cyhoeddus. Amcangyfrifir bod diet gwael yn achos mewn dros 100,000 o farwolaethau o glefyd y galon, strôc a chanser bob blwyddyn.

Ac eto mae i fwyd rôl unigryw mewn iechyd cyhoeddus. Mae'n ymwneud yn bennaf â chyfrifoldeb yr unigolyn a dewis personol. Ond gall hynny fod yn anodd os yw'r labelau'n annigonol neu os oes diffyg gwybodaeth. Nid yw bob amser yn hawdd cael diet cytbwys, oherwydd yr hyn a all fod mewn bwyd wedi'i brosesu neu fwyd parod, ac efallai y bydd angen help ar rai pobl i gael y cydbwysedd sy'n addas iddynt. Mae pobl sydd ar incwm isel yn fwy tebygol o ddioddef gan afiechyd sy'n gysylltiedig â diet ac mae tlodi yn cyfyngu ar ddewis. Mae plant yn agored i

ddioddef, ac mae arnom ddyletswydd i weithio gyda rhieni, gofalwyr a sefydliadau i wella iechyd dietegol pobl ifanc.

Mae'r targedau newydd a amlinellir yn y cynllun hwn yn nodi datblygiad sylweddol yr ASB. Mae diet ac iechyd yn ganolog i'n dyheadau, ac maent yn cael eu gyrru gan amddiffyn y cyhoedd.

Mae llawer yn y diwydiant bwyd wedi dangos y gallant ymateb yn gadarnhaol wrth wneud cyfraniad sydd o fudd i iechyd y cyhoedd. Mae newidiadau diweddar, boed yn gostwng faint o halen sydd mewn bwydydd wedi'u prosesu, atal prydau "super size" neu gyflwyno dewis iach mewn cadwynau bwyd brys, yn dangos mor gryf yw'r galw gan ddefnyddwyr wrth greu newidiadau a all wella'u hiechyd. Ond mae llawer mwy i'w wneud.

Felly, chwiliwn am gydbwysedd rhwng gwybodaeth, rheoleiddio a gweithredu gwirfoddol ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus er mwyn cael newid. Byddwn wastad yn anelu at gytundeb, ond pan fydd yn angenrheidiol ac ar sail tystiolaeth, byddwn yn gweithredu'n gadarn er lles y cyhoedd.

Er mwyn gwneud gwahaniaeth, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ar draws y DU. Cyfrannodd dros 200 o grwpiau, cwmnïau ac unigolion at ddatblygu'r cynllun strategol hwn. Ystyriwyd yr holl safbwyntiau hynny'n ofalus, gan gynnwys cyfraniadau ar wahân gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a buont yn gymorth wrth lunio'n blaenoriaethau. Dechrau ar broses yw hyn, a byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'r syniadau a'r camau angenrheidiol i roi'r cynlluniau hyn ar waith.

Nid her syml mo hon. Ond bydd llwyddiant yn golygu bod llawer o bobl a fyddai fel arall yn marw cyn pryd yn byw'n hirach, y bydd lles llawer mwy yn gwella, ac y byddwn yn rhoi'r dechrau gorau posibl i'n plant.

Cynnwys

Pennod1.

Rhoi defnyddwyr yn gyntaf: y stori hyd yn hyn.

Pennod 2.

Y pum mlynedd mesaf: ymateb i fyd sy'n newid

Pennod 3.

Diogelwch bwyd

Pennod 4.

Bwyta'n Iach

Pennod 5.

Dewis

Pennod 6.

Sut y byddwn yn darparu:

- Partneriaeth

- Cynaladwyedd

- Ledled Ewrop ac yn rhyngwladol

- Ein gwerthoedd craidd

Atodiad.

Amdanom Ni:

- Pwy ydym ni
- Ein pwrpas a'n gwerthoedd
- Ein rôl wrth orfodi cyfraith bwyd
- Cael gwybod mwy amdanom ni a'n gwaith
- Sut i gysylltu â ni

PENNOD 1

RHOI DEFNYDDWYR YN GYNTAF: Y STORI HYD YN HYN

Sefydlodd y Llywodraeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Ebrill 2000 i 'roi terfyn ar yr hinsawdd o ddryswch ac amheuaeth am y ffordd yr aed i'r afael â materion diogelwch a safonau bwyd' [1]. Mae ein cylch gwaith yn cynnwys diogelwch bwyd[2], maeth (ar y cyd ag adrannau iechyd y DU) a diogelu buddiannau defnyddwyr o ran bwyd. Mae ein Hasiantaeth Weithredol, y Gwasanaeth Glanweithdra Cig, yn gweithredu ym Mhrydain Fawr. Mae'n cyhoeddi ei gynllun strategol ei hun[3].

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn un o adrannau annibynnol y Llywodraeth, sy'n cael ei rheoli gan Fwrdd a benodwyd i weithredu er lles y cyhoedd ac i roi defnyddwyr yn gyntaf. Mae ein Bwrdd yn trafod ac yn penderfynu polisi bwyd yn gyhoeddus. Cyhoeddir ein cyngor a'n gwybodaeth heb unrhyw ddylanwad gwleidyddol.

O'r dechrau, rydym wedi ymrwymo at dair egwyddor graidd:

- **rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf**
- **bod yn agored ac yn hygyrch**
- **bod yn llais annibynnol**

Gallwch gael gwybod mwy am ein gwerthoedd craidd yn yr atodiad ('Amdanom Ni').

Rydym wedi:

Seilio ein polisïau ar y dystiolaeth orau sydd ar gael

cynyddu ffydd y cyhoedd yn y modd y caiff diogelwch bwyd [2] ei amddyffyn drwy:

- roi defnyddwyr yn gyntaf
- bod yn onest am beryglon ac ansicrwydd yn ymwneud â bwyd
- cynnwys rhanddeiliaid wrth lunio polisi
- datblygu diwylliant penodol sy'n arfer ein gwerthoedd craidd

atgyfnerthu gorfodi cyfraith bwyd: drwy ein Hasiantaeth Weithredol, y Gwasanaeth Glanweithdra Bwyd, ym Mhrydain Fawr; drwy'r Adran Amaethyddol a Datblygiad Gwledig yng Ngogledd Iwerddon; ac mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol ledled y DU

[2] gan gynnwys diodydd (ac eithrio d r yfed drwy biben)
[3] ar gael yn www.food.gov.uk/enforcement/meathyg/mhservice/mhssp

Rydym wedi amddiffyn defnyddwyr a'u diddordebau drwy:

- sicrhau gostyngiad o 18% mewn salwch a achosir gan fwyd. Rydym hefyd mewn sefyllfa dda i gyrraedd ein targed o ostyngiad o 20% erbyn 2006.

- sefydlu'r dystiolaeth sy'n cysylltu halen ag iechyd, ac mewn partneriaeth ag adrannau iechyd y DU, annog y diwydiant bwyd i helpu lleihau'r faint o halen mae pobl yn ei fwyat, a chynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r dystiolaeth hon

- llunio cynllun gweithredu i osod targedau ac amserlenni ar gyfer gwella cydbwysedd diet plant a'u hiechyd, wedi sicrhau a gwerthuso'r dystiolaeth

- cwblhau tri arolygiad mawr o reolaethau BSE i amddiffyn defnyddwyr drwy ystyried y wybodaeth a'r ansicrwydd diweddaraf

- delio â thros 2,800 o ddigwyddiadau[4] a allai effeithio ar ddiogelwch bwyd, gan gymryd y camau priodol i amddiffyn defnyddwyr lle mae angen

Drwy ein swyddfeydd **yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon**, rydym wedi diogelu defnyddwyr a'u lles drwy gamau sy'n adlewyrchu'r sefyllfaoedd yn eu gwledydd. Er enghraifft:

- Lansiwyd y Cynllun Gwobrau Bwyta'n Ddiogel ym mis Mehefin 2003. Rhaid i fusnesau gyrraedd safonau uchel o lanweithdra bwyd er mwyn ennill gwobr.
- Mae Asiantaeth Safonau Bwyd Gogledd Iwerddon a'r Bwrdd Hyrwyddo Diogelwch Bwyd (FSPB) wedi cyd-noddi'r fenter "Decent Food for All", a drefnwyd gan Ranbarth Gweithredu Iechyd Dungannon ac Armagh. Mae'r fenter hon wedi ymrwymo i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi bwyd.

- Mae Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru wedi gosod targedau ar gyfer gwella diet pobl Cymru (*Bwyd a Lles),* ac mae'n goruchwylio cynllun gweithredu er mwyn eu cyrraedd.
- Mae Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru wedi lansio Gwobr Glanweithdra Bwyd Cymru.

- Mae Asiantaeth Safonau Bwyd yr Alban yn cefnogi mentrau cenedlaethol i atgyfnerthu negeseuon allweddol am lanweithdra bwyd
- Mae Asiantaeth Safonau Bwyd yr Alban yn bartner yn y dasg o weithredu argymhellion Cynllun Gweithredu Diet yr Alban gan Gorff Gweithredol yr Alban (www.scotland.gov.uk). Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth ffeithiol ar gyfer yr ymgyrch "healthyliving" yn yr Alban.

[4] ers Ebrill 2000

- Rhoi gwybodaeth awdurdodol drwy ymgyrchoedd, y cyfryngau, a'n gwefan arobryn (www.food.gov.uk)

- ennyn gwelliannau mawr yng ngorfodaeth yr awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladd o reolaeth bwyd mewnforiedig

- datgelu twyll labeli[5] a sefydlu tasglu i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chynllwynion cig

- cwblhau a chyhoeddi 236 o adroddiadau archwilio am orfodi cyfreithiau bwyd gan awdurdodau lleol ledled y DU

Rydym wedi dechrau gweld gwelliannau gwirioneddol i ddefnyddwyr, ond rydym yn dal i ddysgu, ac mae yna rai pethau y byddem yn eu gwneud yn wahanol nawr:

- yn gyntaf, nid oedd ein hasesiad o berfformiad awdurdodau lleol mor drylwyr ag oedd angen. Rydym nawr yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu a chyhoeddi dangosyddion sy'n cynnwys eu gwaith wrth helpu busnesau i wella'u safonau

- roedd llawer o fusnesau bach yn gweld bod ein canllawiau cyntaf ar systemau[6] rheoli diogelwch bwyd, i'w helpu i gydymffurfio â rheoliadau UE, yn rhy gymhleth. Rydym bellach yn cynnal cynllun peilot gyda dull symlach, sy'n adlewyrchu anghenion sectorau gwahanol ledled y DU. Mae hyn yn ennyn diddordeb gwledydd eraill

- dywedodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod angen i ni wneud mwy i ddysgu o'n profiad o ddelio â digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch bwyd. Rydym bellach yn adolygu pob digwyddiad, gan ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch digwyddiadau mawr, er mwyn nodi'r gwersi sydd angen eu dysgu

- i ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, byddwn yn gwella ein perfformiad wrth roi adborth i'n rhanddeiliaid ar y ffordd y cafodd eu barn ei chymryd i ystyriaeth wrth lunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

> Caiff dros 90% o reoliadau bwyd newydd eu datblygu yn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi sefydlu cysylltiadau da ag asiantaethau bwyd mewn gwledydd eraill ac o fewn y Comisiwn Ewropeaidd. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gydag Awdurdod Diogelwch Bwyd Newydd Ewrop. Rydym yn atgyfnerthu ac yn datblygu'r cysylltiadau hyn drwy gydweithio agosach a chynnal phrosiectau ar y cyd.

[5] drwy arolygon i wirio a yw bwyd fel y'i disgrifir ar y label

[6] yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. Mae HACCP yn system reoli sy'n nodi pa gamau mewn prosesau neu weithdrefnau sydd fwyaf tebygol i fethu ac yn gweithredu i sicrhau y rheolir hyn yn effeithiol. Am fwy o wybodaeth gweler www.food.gov.uk

PENNOD 2

Y PUM MLYNEDD NESAF: YMATEB I FYD SY'N NEWID

Mae angen i ni ymateb i newidiadau yn y byd o'n cwmpas:

- mae'r tueddiadau i ddefnyddio bwydydd parod a mynd allan i giniawa:
  - yn golygu ei bod hyd yn oed yn bwysicach i ddefnyddwyr gael gwybodaeth glir am yr hyn sydd yn eu bwyd
  - yn ei gwneud yn anoddach i bobl reoli faint o halen, braster neu siwgr y maent yn eu bwyta
  - yn golygu bod rheoliadau glanweithdra effeithiol wrth gynhyrchu bwyd ac arlwyo hyd yn oed yn bwysicach

- mae gordewdra ymysg plant yn cynyddu ac mae mwy o blant yn cael diabetes math 2

- gallai'r technolegau newydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cynhyrchu a phrosesu bwyd godi pryderon, heriau a chyfleoedd diogelwch newydd

Mae tueddiad i'r prydau a'r byrbrydau a fwyteir y tu allan i'r cartref gynnwys mwy o fraster (a thua 40% o'r calorïau yn deillio o fraster)
Ffynhonnell: Arolwg Bwyd Cenedlaethol, 2000

Mae'n amlwg bod pobl yn gorfwyta yn ôl eu hanghenion ynni
Ffynhonnell: Trydydd Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Iechyd, Mai 2004

Mae'r cynnydd mewn gorbwysau a gordewdra ym mhoblogaeth y wlad hon – yn enwedig ymysg plant – yn bryder mawr
Ffynhonnell: Prif Swyddog Meddygol, adroddiad Blynyddol 2002

Mae gordewdra ymysg pobl ifanc o 6 i 15 oed wedi treblu (5% to 16%) mewn 11 mlynedd (1990-2001)
Ffynhonnell: Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, 2004

- gallai technolegau newydd eraill, fel gwybodaeth ychwanegol ar ddarllenyddion cod bar mewn siopau, neu drwy siopa ar y rhyngrwyd, ei gwneud yn haws i bobl ddewis y diet gorau ar gyfer eu hanghenion penodol

Mae globaleiddio cynhyrchu a phrosesu bwyd yn golygu bod yn rhaid i'r diwydiant bwyd a'r rheoleiddwyr gael ymagwedd ryngwladol tuag at amddiffyn defnyddwyr.

Ein strategaeth newydd

Yn ein cynllun strategol, gosodwn dargedau newydd ar gyfer gwelliannau mewn:

- diogelwch bwyd
- bwyta'n iach
- dewis

Rhaid i **Ddiogelwch Bwyd** (Pennod 3) barhau'n flaenoriaeth bennaf, a'n Hasiantaeth Weithredol, y Gwasanaeth Glanweithdra Cig, yn chwarae rhan allweddol.

Ond mae clefydau sy'n ymwneud â diet yn achosi llawer mwy o salwch a marwolaethau cynnar. Byddwn yn gwmeud ein rhan drwy hyrwyddo **Bwyta'n Iach** (Pennod 4). Dywedodd nifer fawr o'n rhanddeiliaid eu bod am i ni wneud mwy i helpu defnyddwyr i ddewis bwyta'n iach.

Mae arnom eisiau i ddefnyddwyr allu dewis diet iach, ac i allu gwneud hynny heb orfod coginio pob pryd o'r dechrau. Mae arnom eisiau sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf well dealltwriaeth o'r holl agweddau ar fwyd. Gyda'n partneriaid mewn adrannau addysg yn y DU, gallwn helpu plant i gael diet iach ac i drin bwyd yn ddiogel drwy roi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol iddynt.

Cawsom ein sefydlu i amddiffyn lles defnyddwyr. Mae ar ddefnyddwyr eisiau gwybodaeth gywir a dibynadwy er mwyn iddynt allu gwneud eu dewisiadau eu hunain. Mae **Dewis** (Pennod 5) yn chwarae rôl hanfodol yn ein gwaith ar ddiogelwch a safonau ac wrth helpu pobl i fwyta'n ddiogel ac yn iach.

Mae Penodau 3, 4, a 5 yn y cynllun strategol hwn yn gosod allan, ar gyfer pob maes blaenoriaeth yn ei dro:

- ein hamcanion allweddol
- yr hyn yr ydym yn anelu ato
- herio targedau a cherrig milltir i'n helpu:
  - i gyrraedd ein nodau
  - i helpu rhanddeiliaid i asesu ein cynnydd
  - i nodi lle mae llwyddiant yn dibynnu ar greu partneriaethau gyda chwaraewyr allweddol eraill

Byddwn yn adolygu'r targedau hyn, a'n cynnydd wrth eu cyrraedd, yn 2007.

Mae'r ddogfen hon yn gosod ein cyfeiriad strategol cyffredinol a'n blaenoriaethau ledled y DU. Fodd bynnag, drwy ein swyddfeydd ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig, gallwn sicrhau ein bod yn darparu'r blaenoriaethau hyn mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau, sefyllfaoedd a threfniadau gweinyddol lleol.

Ym Mhennod 6 ('Sut y byddwn yn darparu') disgrifiwn yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'r ffordd y byddwn yn gweithredu ein cynllun. Rydym yn pennu sut y byddwn yn ystyried datblygiad cynaliadwy yn ein holl weithgareddau a'n penderfyniadau polisi. A phwysleisiwn y pwysigrwydd a rown i weithio mewn partneriaeth gyda'n holl randdeiliaid er mwyn cyrraedd y targedau. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Nid yw'n ceisio disgrifio'r holl bethau y byddwn yn eu gwneud i gefnogi'r blaenoriaethau[7] hyn. Er enghraifft:

[7] Gellir cal mwy o wybodaeth ar y rhaglen waith cyfredol yn Adroddiadau Adrannol Blynyddol yr ASB: http://www.food.gov.uk/aboutus/publications/busreps

- byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth drwy gomisiynu ymchwil, ar ein cyfer ein hunain[8] ac mewn cydweithrediad ag arianwyr eraill

- byddwn yn gofyn i bwyllgorau cynghori arbenigol werthuso'r dystiolaeth er mwyn i ni allu rhoi cyngor diweddar ac wedi'i dargedu[9] i wahanol grwpiau o ddefnyddwyr.

- byddwn yn parhau i gefnogi'r Gweinidogion ym mhedair gwlad y DU wrth fynd i'r afael â busnes y Cynulliad a busnes y Senedd yn ein meysydd cyfrifoldeb

Camau nesaf

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, buom yn ymgynghori'n eang, yn anffurfiol a thrwy ymgynghori ffurfiol am 12 wythnos. Roedd nifer fawr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys awgrymiadau ynghylch beth y gallem ei wneud i gyrraedd ein targedau, ac roeddent yn cefnogi'n gryf ein bwriad i weithio mewn partneriaeth ag eraill. Bydd y sylwadau hyn yn ein helpu i gynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer diwallu ein nodau strategol. Rydym wedi datblygu'r nodau strategol hyn gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â hwy wrth i ni ddatblygu'r cynlluniau gweithredu hyn. Ni allwn gyrraedd ein targedau heb eu help.

[8] gweler, er enghraifft, yr adroddiadymchwil blynyddol mwyaf diweddar: http://www.food.gov.uk/science/researchportfolio/researchannualreports/
[9] er enghraifft, cyngor ar fwyta pysgod oeliog

PENNOD 3

DIOGELWCH BWYD

Rydym yn awyddus:

- i leihau ymhellach salwch a achosir gan fwyd
- i ddarparu rheoliadau BSE a TSE cymesur yn seiliedig ar y wybodaeth wyddonol ddiweddaraf
- i leihau'r peryglon i ddefnyddwyr gan halogi cemegol a radiolegol
- i helpu pobl ag alergedd ac anoddefgarwch bwyd i wneud y dewisiadau bwyd angenrheidiol

Salwch a achosir gan fwyd

Mae salwch a achosir gan fwyd yn costio £1.5 biliwn i'r wlad bob blwyddyn [3]

Pan oedd yr epidemig BSE yn ei anterth, roedd dros 37,000 o achosion newydd mewn gwartheg bob blwyddyn. Yn 2003, roedd hyn wedi gostwng i lai na 600 o achosion, a disgwyir iddo ostwng i lai na 400 yn 2004. Erbyn dechrau 2004, soniwyd am gyfanswm o 145 achos o vCJD – y clefyd dynol a gysylltir â BSE.

Halogi gan ficro-organebau

Yn ein cynllun strategol diwethaf, gosodwyd targed anodd i ni'n hunain i ostwng salwch a achosir gan fwyd 20% erbyn 2006. Dywedwyd hefyd y byddem yn gostwng 50% yr halogiad salmonella mewn cig cyw iar wedi'i gynhyrchu yn y DU i'w werthu mewn siopau. **Drwy weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid, rydym eisoes wedi cyrraedd yr ail darged, ac rydym mewn sefyllfa dda i gyrraedd yr un cyntaf.**

Cyflawnir rôl allweddol wrth atal salwch a achosir gan fwyd gan y 468 awdurdodau lleol a'r awdurdodau iechyd porthladdoedd yn y DU. Mae'r rhain yn gyfrifol am orfodi'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth ddiogelwch a safonau bwyd o ddydd i ddydd.

Ond credwn fod gan ddefnyddwyr yr hawl i ddisgwyl mwy. Dylai pob sector yn y gadwyn fwyd wneud eu rhan i atal micro-organebau niweidiol rhag halogi bwyd. Yn benodol:

- ***wrth gynhyrchu bwyd yn gychwynnol***
  - byddwn yn gweithio gydag adrannau amaethyddol i leihau halogi yn y ffynhonnell
- ***wrth brosesu, dosbarthu bwyd a'r gwasanaethau***
  - gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, byddwn yn helpu'r diwydiant arlwyo i weithredu systemau effeithiol i reoli diogelwch bwyd, wedi eu seilio ar egwyddorion HACCP (Hazard Analysis Critical Control Point)
  - byddwn yn helpu'r rhai hynny yn y sector prosesu cig i sefydlu rheoliadau wedi eu seilio ar risg er mwyn cynhyrchu cig yn ddiogel
- ***ar gyfer y defnyddiwr heddiw sy'n paratoi bwyd yn y cartref***
  - byddwn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r camau allweddol sy'n angenrheidiol i bawb i sicrhau bod eu bwyd yn ddiogel
- ***ar gyfer defnyddiwr yfory***
  - byddwn yn helpu plant i ddysgu am lanweithdra bwyd

Mae arnom eisiau gweld gostyngiad sylweddol yn y salwch a achosir gan fwyd.

BSE a TSEau[10]

Rydym wedi gwneud tri adolygiad mawr o reoliadau BSE er mwyn sicrhau bod y rhain yn ystyried datblygiadau yn y ddealltwriaeth o BSE (ac o TSE mewn anifeiliaid bwyd eraill) ac wrth ddatblygu profion newydd ar gyfer TSE.

Byddwn:

- yn sicrhau bod rheoliadau BSE yn y gadwyn fwyd wedi'u seilio ar y wybodaeth wyddonol ddiweddaraf
- yn amddiffyn defnyddwyr drwy weithredu a gorfodi rheoliadau cymesur ac effeithiol mewn perthynas â chig a gynhyrchir yn y DU a chig sydd wedi ei fewnforio.

Mae ein Hasiantaeth Weithredol, y Gwasanaeth Glanweithdra Cig, yn helpu amddiffyn y cyhoedd rhag salwch a achosir gan fwyd drwy orfodi rheoliadau glanweithdra, arolygu a lles ym Mhrydain Fawr yn deg, yn gyson ac yn effeithiol.

Yng Ngogledd Iwerddon, cyflawnir y swyddogaethau cyfatebol ar ein rhan gan yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

[10] Mae enseffalopathi sbyngffurf buchol (BSE) yn glefyd prion sy'n perthyn i deulu o afiechydon a elwir yn enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy (TSEau). Mae TSE yn cynnwys clefyd y crafu mewn defaid a chlefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD) mewn pobl. Ym 1996, nodwyd amrywiolyn newydd ar CJD (vCJD) mewn pobl a chytuna mwyafrif yr arbenigwyr mai'r achos mwyaf tebygol o vCJD yw bod yn agored i BSE.

Bydd y targedau a'r cerrig milltir hyn yn ein helpu ni ac eraill i asesu ein cynnydd:

Cynhyrchu Cychwynnol

- byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau gostyngiad o 50% erbyn 2010 yn nifer yr ieir a gynhyrchir yn y DU a sydd â *Campylobacter*. Byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn 2005 i'n helpu i osod llinell fas briodol ar gyfer mesur cynnydd. Byddwn yn adolygu priodoldeb y targed o 50% yn unol â'r llinell fas honno
- byddwn yn gweithio gyda diwydiant i sicrhau gostyngiad o 50% erbyn 2010 yn nifer y moch sydd â *Salmonella* adeg eu lladd
- byddwn yn hyrwyddo ac yn cynorthwyo datblygu prawf byw sensitif, cyflym ar gyfer TSE erbyn 2010

Prosesu a dosbarthu bwyd a'r gwasanaethau

- byddwn yn parhau i gomisiynu mesurau newydd o lanweithdra mewn lladd-dai erbyn 2007, er mwyn galluogi safleoedd i fonitro'u perfformiad, a'i wella lle bydd angen. Byddwn wedyn yn defnyddio'r mesurau hyn i osod targedau ar gyfer sicrhau gwelliannau erbyn 2010
- byddwn yn datblygu arweiniad wedi'i deilwra ar reoli diogelwch bwyd (wedi'i seilio ar egwyddorion HACCP) yn arbennig ar gyfer busnesau bach. Cyflwynir yr arweiniad ar gyfer y sector arlwyo yn 2005 ar ôl rhoi'r canllawiau ar brawf yn 2004
- byddwn yn gwerthuso cynlluniau gwobrwyo glanweithdra[11] ar gyfer arlwywyr erbyn 2006, a, os bydd canlyniadau'n gadarnhaol, eu defnyddio i'n helpu i hyrwyddo'r cynlluniau'n ehangach.

Gorfodi

- byddwn yn newid y ffordd yr ydym yn adrodd am weithgarwch gorfodi awdurdodau lleol erbyn 2006, i gydadnabod eu rolau cynghori ac addysgu pwysig wrth helpu busnesau lleol i ddarparu safonau uwch o ddiogelwch bwyd, ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i wella cywirdeb, amseroldeb a pherthnasedd data awdurdodau lleol ar berfformiad

Hyrwyddo trin bwyd yn ddiogel yn y cartref

- erbyn 2005 byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi strategaeth ar gyfer gwella ymwybyddiaeth a defnyddio'r **pedwar cam** (glanhau, coginio, oeri ac osgoi croes-halogi) gan ganolbwyntio'n benodol ar waith gydag ysgolion a chefnogaeth i fentrau diogelwch bwyd lleol

Mesurau mwy trylwyr ar effaith ein gweithredu

- erbyn 2006 byddwn yn datblygu ein dangosyddion cyfredol i ddarparu mesur dibynadwy o effeithiolrwydd ein strategaeth ar salwch a achosir gan fwyd o ran budd cost, gan ystyried nifer yr achosion o glefyd a'u difrifoldeb.

[11] Arbrofir â gwahanol ymdriniaethau gan yr ASB yng Nghymru a Gogledd Iwerddon a chan rai awdurdodau lleol yn rhannau eraill y DU

Halogyddion cemegol mewn bwyd

Ers mis Ebrill 2000, rydym wedi:

- delio â dros 2800 o ddigwyddiadau[12] a oedd â photensial i effeithio ar ddiogelwch bwyd
- drwy ein rhaglen wyliadwriaeth helaeth, wedi nodi digwyddiadau halogi bwyd ac wedi mynd i'r afael â nhw [5], er enghraifft:
    - 3-MCPD yn saws soy
    - meddyginiaethau milfeddygol anghyfreithlon mewn cynnyrch anifeiliaid o China a gwledydd eraill yn y Dwyrain Pell
    - mycotoxins mewn cnau

Gall halogiadau cemegol (gan gynnwys radiolegol) halogi bwyd mewn nifer o ffyrdd – mae rhai yn bresennol yn naturiol, ac eraill o ganlyniad i weithgarwch dynol. Yr her i bawb sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd yw cydweithio er mwyn sicrhau nad yw halogiadau yn peryglu iechyd pobl.

Mae gormod o ddigwyddiadau halogi yn digwydd am nad yw rhannau o'r diwydiannau bwyd[13] ac amaethyddol yn talu digon o sylw i gamau bregus yn eu gweithrediadau, yn enwedig ansawdd eu deunyddiau crai. Mae ar bob rhan o'r gadwyn fwyd gyfrifoldeb i sicrhau bod y porthiant anifeiliaid a'r bwyd y maent yn eu gwerthu (boed yn gynnyrch y DU neu wedi ei fewnforio) yn rhydd o unrhyw lefelau peryglus neu anghyfreithlon o halogiadau.

Er mwyn helpu codi safonau, byddwn yn:

- gweithio i leihau halogi drwy gydol y gadwyn fwyd, gan ddechrau gyda chynhyrchu sylfaenol, a nodi ac annog arfer gorau i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd, mewn ffordd gymesur.

- cynyddu cydweithio ag awdurdodau lleol ar arolygon i wirio bwyd a phorthiant anifeiliaid am halogiad, wedi ei atgyfnerthu gan weithgarwch gorfodi lle bo hynny'n briodol

- gweithio o fewn yr UE i gael rheolaeth newydd neu dynnach o'r halogiadau hynny a flaenoriaethwyd

- gwella partneriaethau gweithiol gydag asiantaethau'r Llywodraeth gan gynnwys yr Asiantaeth Amddiffyn Iechyd, Asiantaeth yr Amgylchfyd a sefydliadau cywerth yn y gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau y delir â digwyddiadau diogelwch bwyd yn gyflym, ac i wella ein cymhwysedd i ddelio â halogi bwyd yn faleisus.

[12] cemegol, radiolegol a microbiolegol
[13] yn unigolion ac yn gwmnïau

Bydd y targedau a'r cerrig milltir hyn yn ein helpu ni ac eraill i asesu ein cynnydd:

- byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant bwyd ac awdurdodau lleol i roi gwybodaeth am digwyddiadau'n fwy trylwyr ac yn cytuno ar system i ddosbarthu eu difrifoldeb, a'i sefydlu erbyn diwedd 2005
- byddwn yn sefydlu mesur llinell sylfaen erbyn 2006 ar gyfer nifer y digwyddiadau o bob math
- byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i ostwng ar nifer yr achosion risg uchel a chanolig 25% erbyn 2010

Alergedd

Mae gan hyd at 2 berson o bob 100 yn y Du alergedd bwyd wedi'i ddiagnosio [6], ac yn ychwanegol mae gan 1 o bob 100 anoddefgarwch glwten, sef protein a geir mewn grawnfwyd fel gwenith [7]. Mae hyn yn gyfanswm o ryw 1.5 miliwn o bobl. Bydd tua 10 o bobl yn marw bob blwyddyn oherwydd alergedd bwyd

Mae tua 50% o'r rheiny sydd ag alergedd bwyd wedi'i ddiagnosio yn dal i ddioddef gan adweithiau, er gwaethaf eu hymdrechion i osgoi'r bwydydd sy'n achosi'r alergedd [8]

Mae gan yr Asiantaeth ddau nod yn ei waith ar alergedd: sicrhau bod gan bobl y wybodaeth gywir i'w cadw'n ddiogel, ac atal cyfyngu eu dewisiadau yn ddiangen.

Bydd y targed hwn yn ein helpu ni ac eraill i asesu ein cynnydd:

- erbyn 2006 byddwn yn llunio canllawiau ar ddefnyddio'n briodol ac yn gymesur ddatganiadau ar labeli sy'n rhybuddio defnyddwyr sydd ag alergedd am y risg o halogi gan gnau neu hadau sesame. Wrth wneud hyn, rydym yn adeiladu ar arweiniad sy'n bodoli eisoes, a byddwn yn sicrhau bod yr arweiniad yn berthnasol hefyd i alergenau eraill

PENNOD 4

BWYTA'N IACH

Rydym yn awyddus:

- i annog defnyddwyr i ddewis diet iach
- i wneud bwyta'n iach yn ddewis haws
- i helpu lleihau afiechydon sy'n gysylltiedig â diet

Mae diet yn effeithio ar iechyd defnyddwyr mewn llawer ffordd, er enghraifft:

- Cysylltir gormod o halen â phwysedd gwaed uwch [9]
- Mae pobl sydd â phwysedd gwaed uchel deirgwaith yn fwy tebygol o ddioddef gan glefyd y galon a strôc, a dwywaith mor debygol o farw o'r clefydau hyn na phobl sydd â lefelau normal [10]
- Mae tua thraean yr holl farwolaethau o glefyd coronaidd y galon (sef cyfanswm o dros 120,000 [11]) yn gysylltiedig â diet [12]
- Ym mis Ionawr 2004, dywedodd cynrychiolwyr asiantaethau bwyd cenedlaethol yr UE:

"Mae holl wledydd Ewrop yn wynebu problemau iechyd tebyg sy'n gysylltiedig â maeth, ac mae'r achosion cynyddol o ordewdra, yn enwedig ymysg plant, yn ofid arbennig.""

- Os bydd tueddiadau presennol yn parhau, erbyn 2020, bydd o leiaf draean yr oedolion, un o bob pum bachgen a thraean y merched yn ordew [13]
- Gwelir bod mwy o blant yn dioddef gan ddiabetes Math 2 [13]
- Mae gordewdra yn costio o leiaf £ 2.5 biliwn i'r economi bob blwyddyn [14]
- Credir bod diet yn achos mewn tua thraeano'r holl farwolaethau o ganser [15]. Bu farw dros 158,000 o bobl o ganser yn 2001 [11]

Mae afiechyd sy'n gysylltiedig â diet yn gysylltiedig â'r dewisiadau y gall pobl eu gwneud, a chan y dewisiadau maent yn eu gwneud mewn gwirionedd. Gall diet, dull o fyw ac ymarfer corff i gyd gael effaith.

> *Rwy'n dal yn obeithiol y gall yr Alban wella'i statws iechyd. Gallwn leihau nifer yr achosion o ganser a gallwn leihau lefelau gordewdra, ond dim ond os bydd pobl yn gwneud dewisiadau sy'n hybu eu hiechyd eu hunain.*
>
> Ffynhonnell: Prif Swyddog Meddygol yr Alban

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn rhannu'r cyfrifoldeb dros faeth gydag adrannau iechyd, ond mae gennym rôl benodol i sicrhau bod gan bobl yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud dewisiadau, ac i'w helpu i benderfynu pa newidiadau i'w diet y mae angen iddynt eu gwneud a'u gweithredu. Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain; bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys adrannau iechyd, addysg ac adrannau perthnasol eraill y Llywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion, y GIG a'r diwydiant bwyd. Er mwyn ein galluogi i fonitro cynnydd, byddwn yn parhau i weithio gydag adrannau iechyd ac eraill i gasglu gwybodaeth briodol am ddiet a maeth pobl.

Rydym eisoes yn gweithio gyda'n partneriaid i helpu darparu cynlluniau gweithredu cenedlaethol ar faeth yng ngwahanol wledydd y DU - y Strategaeth Maeth 'Bwyd a Lles' yng Nghymru, y Cynllun Gweithredu Bwyd ac Iechyd yn Lloegr, y Strategaeth Diet a Maeth ar gyfer yr Alban, a'r Cynllun Gweithredu Maeth yng Ngogledd Iwerddon sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Rydym wedi datblygu deunydd addysgu ar gyfer ysgolion. Rydym wedi noddi Bws Coginio ASB i helpu ysgolion i addysgu plant am fwyta'n iach a glanweithdra bwyd, ac wedi rhoi blaenoriaeth i ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Rydym wedi dechrau gweithio gydag adrannau addysg ledled y DU i wella'r bwyd y mae plant yn ei fwyta pan fyddant yn yr ysgol.

Rydym wedi sicrhau tystiolaeth newydd sy'n dangos pwysigrwydd bwyta llai o halen, ac rydym yn gweithio gydag adrannau iechyd i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud hyn.

Yn y pum mlynedd nesaf, byddwn:

- yn ei wneud yn haws i ddefnyddwyr ddewis ddiet iach
- yn annog galw gan ddefnyddwyr am ddewisiadau iachus drwy ymgyrchoedd cenedlaethol a thrwy hyrwyddo arfer gorau ar y lefel leol
- yn annog y sector cyhoeddus i ddarparu bwyd iach mewn ysgolion, ysbytai a sefydliadau eraill
- yn dylanwadu ar arferion bwyta'r genhedlaeth nesaf:
    - drwy annog eraill i atgyfnerthu'r rhan 'bwyta'n iach' yn y cwricwlwm ac i wella'r hyn y mae plant yn ei fwyta yn yr ysgol
    - drwy newid y ffordd y caiff bwyd ei hyrwyddo i blant
    - drwy gyfrannu at waith adrannau iechyd ar faeth plant ifanc iawn

Mae arnom eisiau hwyluso'r dewis i fwyta'n iach i bawb. Fel rhan o'n strategaeth, byddwn yn gwrando ar ddefnyddwyr sy'n agored i ddioddef ac sy'n 'anodd eu clywed'. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth o Arolwg Diet a Maeth Incwm Isel, sef ein hymgynghoriad yn ddiweddar ar faterion yn ymwneud ag incwm isel a gwybodaeth o'r gronfa ddata 'Food Vision'[14] o fentrau lleol sy'n ymwneud â bwyta'n iach i'n helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer helpu pobl hawdd sy'n agored i ddioddef a phobl dan anfantais i wella eu diet.

Bydd y targedau a'r cerrig milltir manylach hyn yn ein helpu ni ac eraill i asesu cynnydd:

Targedau ar gyfer newid diet pobl

- byddwn yn gweithio gydag adrannau iechyd a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod oedolion yn y DU yn bwyta llai o halen, o 9.5g y dydd ar hyn o bryd i 6g y dydd erbyn 2010, ac i leihau faint o halen mae plant yn ei fwyat yn unol ag argymhellion penodol ar gyfer oed penodol gan y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol, hefyd erbyn 2010. Byddwn yn monitro cynnydd i sicrhau ein bod yn dal ar y ffordd i gyrraedd y targed
- byddwn yn gweithio gydag adrannau iechyd a rhanddeiliaid eraill i leihau faint o fraster dirlawn sy'n cael ei fwyta ar gyfartaledd (i bawb o 5 oed ac i fyny) o'r lefel bresennol o 13.4% i lai nag 11% o'r ynni a geir o fwyd erbyn 2010 [16]
- byddwn yn datblygu targedau ar gyfer cael cydbwysedd rhwng faint o Calorïau sy'n cael eu bwyta ac allbwn ynni, mewn cydweithrediad ag adrannau iechyd, erbyn 2006
- byddwn yn ceisio cyngor arbenigol am oblygiadau cael rhy ychydig o ficromaethynnau ar gyfer iechyd rhai grwpiau yn y boblogaeth. Byddwn yn edrych eto ar ein blaenoriaethau yn 2007 os awgryma'r dystiolaeth hon fod angen i ni weithredu

Helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau iachach drwy ddylanwadu ar y cyflenwad

- erbyn 2006 byddwn yn pennu targedau ar gyfer faint o halen sydd yn y 10 categori bwyd sy'n cyfrannu'r fwyaf o halen i'r diet
- erbyn 2005 byddwn yn gweithredu rhaglenni arolygu i olrhain y prif elfennau maeth mewn prydau bwyd mewn sefydliadau mawr, gan gynnwys ysgolion. Byddwn yn gweithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth i osod targedau i wella ansawdd maeth prydau bwyd felly yn unol â thargedau cenedlaethol y DU ar gyfer Calorïau, halen, braster a siwgr

[Parhad ar y dudalen nesaf]

[14] datblygir mewn partneriaeth rhwng yr ASB, Cymdeithas Llywodraeth Leol a Chydlynwyr yr Awdurdodau Lleol o Wasanaethau Rheoleiddio

[Parhad o'r dudalen flaenorol]

Helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau iachach drwy wella gwybodaeth a dealltwriaeth a thrwy eu hannog i weithredu

- erbyn 2005 byddwn wedi sefydlu rhaglen o arolygon o faint o Galorïau, halen, braster, a/neu siwgr sydd mewn bwydydd, a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau deallus am yr hyn maent yn ei fwyta
- erbyn 2006 byddwn yn datblygu a hyrwyddo system syml ar gyfer tynnu sylw at faint o halen, braster a siwgr sydd mewn bwyd, fel rhan o strategaeth ar gyfer bwyat llai o halen, siwgr a braster
- erbyn 2005 byddwn yn adolygu'r dystiolaeth sy'n bresennol am ddylanwadau ar ddewis bwyd er mwyn nodi pa rai sy'n ymarferol ac yn effeithiol ac i weld ble mae'r bylchau yn ein gwybodaeth gyfredol
- byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu'r gronfa ddata 'Food Vision' o fentrau lleol ar fwyta'n iach, i annog a lledaenu arfer gorau. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i fentrau sy'n helpu pobl dan anfantais a phobl sy'n agored i ddioddef

Dylanwadu ar y genhedlaeth nesaf

- byddwn yn annog yr holl ysgolion nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny i fabwysiadu ymagwedd '*ysgol gyfan'* tuag at ddiet a maeth
- byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i newid y ffordd y caiff bwyd ei hyrwyddo ymysg plant er mwyn unioni'r anghydbwysedd rhwng bwydydd llai iach a dewisiadau iachach

PENNOD 5

DEWIS

Rydym yn awyddus:

- i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau deallus

Ers 2000, rydym wedi helpu sicrhau gwella rheolau ar labeli alergenau yn yr UE, ac wedi nodi gwell ffurfiau labelu maeth. Rydym hefyd wedi rhoi cyngor ar nifer o bynciau, gan gynnwys labeli cliriach, gwlad cynhyrchu a chynlluniau sicrwydd; ac ar ddefnyddio termau a all gamarwain, fel ffres a thraddodiadol.

Mae angen gwybodaeth ar ddefnyddwyr er mwyn cael dewis. Yn y dyfodol, bydd technoleg sy'n datblygu yn ehangu'r amrywiol ffyrdd y gellir darparu gwybodaeth. Mae ar wahanol ddefnyddwyr eisiau gwahanol fathau o wybodaeth, ac efallai y byddant am osgoi bwydydd penodol am resymau crefyddol, moesol neu ddiwylliannol. Ein rôl ni yw sicrhau darparu'r wybodaeth iawn, ei bod yn gywir, ac nad yw'n camarwain.

Byddwn yn amddiffyn lles defnyddwyr drwy:

- hyrwyddo arfer gorau wrth ddarparu gwybodaeth
- sicrhau bod rheoleiddio ychwanegion bwyd a honiadau iechyd wedi'i seilio ar dystiolaeth a'i fod yn gymesur
- ddiogelu rhag twyll bwyd

Bydd y targedau a'r cerrig milltir hyn yn ein helpu ni ac eraill i asesu ein cynnydd:

Hyrwyddo arfer gorau wrth roi gwybodaeth i ddefnyddwyr

- byddwn yn gosod targedau ar gyfer gwella dealltwriaeth defnyddwyr o'r wybodaeth 'defnyddier erbyn', ac yn cytuno ar gynllun darparu erbyn 2007
- byddwn yn monitro derbyn y cyngor a roesom yn 2002 am labelu clir, datganiadau tarddiad, a defnyddio termau fel "ffres". Yn 2006, byddwn yn adolygu effeithioldeb ergyd y cyngor hwn
- byddwn yn asesu sut mae'r rheoliadau labelu GM a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2004 yn gweithio mewn gwirionedd ar gyfer defnyddwyr, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio adolygiad y rheoliadau gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2006
- yn 2006, byddwn yn adolygu'r graddau y mae ein canllawiau wedi eu mabwysiadu gan gan gynlluniau sicrwydd. Erbyn 2008, byddwn yn cyhoeddi cronfa o wybodaeth am gynlluniau sicrwydd er mwyn i ddefnyddwyr allu cymharu'r safonau a ddarparant
- byddwn yn gweithio gydag eraill i lunio canllawiau ar leihau olion plaeiddiadau mewn bwyd, erbyn 2005. Erbyn 2006, byddwn yn asesu galw gan ddefnyddwyr am reolau penodol ar labelu defnyddio plaeiddiadau ar gnydau ar ôl eu cynaeafu

Sicrhau bod rheoliadau yn gymesur ac wedi eu seilio ar dystiolaeth

- byddwn yn pwyso am ymagwedd gymesur, yn seiliedig ar ddiogelwch tuag at reoleiddio ychwanegion bwyd yn Ewrop.

Amddiffyn defnyddwyr rhag twyll bwyd ac arferion anghyfreithlon

- byddwn yn datblygu cronfa ddata'r Asiantaeth ar dwyll bwyd erbyn 2005, i asesu a monitro adroddiadau am dwyll bwyd
- yn sgil tystiolaeth am dueddiadau mewn twyll bwyd a gwaith bwysig arall i archwilio deddfau bwyd gan awdurdodau lleol, byddwn yn adolygu effeithiolrwydd cost ein hymagwedd bresennol yn 2007, gan gynnwys defnyddio'r 'gronfa frwydro' i gefnogi archwiliadau twyll gan awdurdodau lleol, a gwaith y Tasglu Cig Anghyfreithlon, gan newid ein hymagwedd os bydd angen
- yn 2005, byddwn yn sefydlu ymagwedd yn seiliedig ar risg ar gyfer y Gwasanaeth Glanweithdra Cig a'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yng Ngogledd Iwerddon er mwyn plismona rheoliadau is-gynhyrchion anifeiliaid
- byddwn yn gwella rheloiadau ac yn cefnogi swyddogion gorfodi sy'n delio â mewnforion anghyfreithlon. Yn benodol, erbyn 2006, byddwn yn sicrhau cynnydd yn llinellau sylfaen 2003 ar gyfer archwiliadau samplu (+25%) ac archwiliadau mewn porthladdoedd o gynnyrch bwyd nad yw'n gynnyrch anifeiliaid (+50%). Byddwn wedyn yn gosod targedau ar gyfer gwelliannau pellach

PENNOD 6

SUT Y BYDDWN YN DARPARU

Partneriaeth

Yn y penodau ar Ddiogelwch Bwyd, Bwyta'n Iach a Dewis, yr ydym wedi nodi'r targedau y byddwn yn eu cyrraedd o fewn y pum mlynedd nesaf. Ychydig iawn y gallwn eu cyflawni ar ein pen ein hun a chydnabyddwn y bydd ein llwyddiant yn dibynnu ar gryfhau ein cysylltiadau â'r rheiny a fydd yn allweddol wrth gyflawni'r canlyniadau yr ydym yn eu ceisio.

Gweithio â lles defnyddwyr a'r sector gwirfoddol

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r prif sefydliadau defnyddwyr ledled y DU, ac i ddatblygu ein cysylltiadau â grwpiau lles y cyhoedd ehangach. Byddwn yn parhau i weithio gyda mentrau bwyd cymunedol, er enghraifft drwy *wobr Y Fonesig Sheila McKecknie* yr Asiantaeth ar gyfer prosiectau bwyd cymunedol.

Derbyniodd ymgyrch yr Asiantaeth, a lansiwyd ym mis Medi 2004 i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus am beryglon bwyta gormod o halen, gefnogaeth ddigyffelyb gan ystod eang o randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys: elusennau iechyd cyhoeddus fel Sefydliad Prydeinig y Galon, y Gymdeithas Strôc, y Gymdeithas Pwysau Gwaed a Fforwm Cenedlaethol y Galon; cyrff proffesiynol fel Coleg Brenhinol y Ffisigwyr a Chymdeithas Ddieteteg Prydain; a sefydliadau defnyddwyr gan gynnwys y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol, "Which" (gynt yn Gymdeithas y Defnyddwyr) a Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Merched; yn ogystal ag ystod eang o gymdeithasau masnach a grwpiau diwydiant eraill. Adlewyrchai'r gefnogaeth hon farn gyfrannol mai'r ffordd orau o gyflawni lleihad sylweddol yn y cymeriant halen ar draws y boblogaeth byddai drwy ymdrech ar y cyd yn cynnwys yr holl chwaraewyr allweddol. Byddwn yn parhau i adeiladu a datblygu'r perthnasoedd hyn i gefnogi'n gwaith i leihau'r cymeriant halen yn y dyfodol, ac i geisio ehangu'r ymagwedd hon i feysydd eraill yn ein gwaith.

Gweithio gyda diwydiant

Mae ein gwaith gyda'r diwydiant ar lunio canllawiau ar gyfer tynnu a galw cynnyrch yn ôl wedi dangos effeithiolrwydd gweithio ar y cyd er mwyn gwella diogelwch bwyd ac i leihau nifer y digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch bwyd. Ond mae nifer y fath ddigwyddiadau yn dal yn rhy uchel, ac felly mae angen adeiladu ar y bartneriaeth lwyddiannus hon er mwyn sicrhau gwelliannau pellach[15].

Buom yn gweithio'n agos â phartneriaid mewn diwydiant ac mewn awdurdodau lleol i helpu busnesau bwyd yn y DU i baratoi ar gyfer deddfwriaeth glanweithdra bwyd newydd yr UE o fis Ionawr 2006. Cytunwyd ar ein strategaeth ar lefel y DU, ac fe'i

[15] gweler y targedau ym Mhennod 3 ('Diogelwch Bwyd')

datblygir yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yng nghyd-destun y amgylchiadau lleol a'r adnoddau sydd ar gael. Er enghraifft, gan adeiladu ar brofiadau ymarferol busnesau ac awdurdodau lleol yn y gwledydd hynny, rydym yn cynnal peilot o wahanol becynnau cymorth ledled y DU. Yn Lloegr, rydym yn arbrofi â *Safer Food, Better Business*, yn yr Alban y *CookSafe Food Safety Assurance System* ac yng Ngogledd Iwerddon y canllaw *Safe Catering*. Hefyd, yng Nghymru, rydym wedi cyd-ariannu datblygu deunyddiau arweiniol ar gyfer Awdurdodau Lleol unigol. Penderfynwn ba ymagwedd, neu ba gyfuniad o ymagweddau, i'w rhoi ar waith yn ehangach fesul cam ar sail canlyniadau'r cynlluniau peilot hyn, a chan ystyried anghenion ac amgylchiadau pob gwlad.

<u>Gweithio â phartneriaid yn y llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach</u>

Mae'r ASB ac adrannau iechyd ledled y DU yn rhannu'r nod gyffredin o alluogi pobl i wneud dewisiadau iach, ac rydym yn cydweithio'n agos er mwyn cyflawni hyn. Er enghraifft, yn Lloegr, mae Papur Gwyn *Choosing Health* y llywodraeth yn pwysleisio'r angen am wybodaeth glir y gall bobl ymddiried ynddi, a phwysigrwydd datblygu partneriaethau â diwydiant er mwyn hyrwyddo iechyd. Mae ein targed i lunio system ar gyfer amlygu'r cynhwysiad halen, braster a siwgr mewn bwydydd, a'n gwaith gyda'r diwydiant i leihau'r lefelau halen, braster a siwgr mewn bwydydd wedi'u prosesu, wedi'u canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau hyn.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag adrannau a chyrff cyhoeddus eraill i wireddu amcanion yr ydym yn eu rhannu, er enghraifft:

- rydym yn gweithio gydag adrannau amaethyddol ledled y DU i ddatblygu ffordd gymesur ac ymarferol i weithredu deddfwriaeth cynhyrchu cychwynnol newydd ar ffermydd

- rydym yn gweithio'n agos â'r Asiantaeth Diogelu Iechyd a chydag asiantaethau'r amgylchedd, e.e. wrth drin â digwyddiadau diogelwch bwyd

- i gyflawni ein targedau ar gyfer bwyta'n iach, bydd arnom angen cymorth y rhai hynny yn y sector addysg ledled y DU. Er enghraifft, yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn gweithio â'r Adran Addysg i gynnal peilot o safonau maeth mewn ysgolion, ac â'r Cyngor y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu ar y gydran diet a maeth o'r cynigion newydd ar gyfer cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3. Yn Lloegr, rydym eisoes wedi cyfrannu at "Healthy Living Blueprint for Schools" yr Adran Addysg a Sgiliau, a byddwn yn parhau i weithio â hwy i wella mynediad at ddewisiadau bwyd iach ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae Bws Coginio ASB, sef menter mewn partneriaeth â'r ymgyrch Ffocws ar Fwyd, yn cyfleu negeseuon bwyta'n iach a diogelwch bwyd i blant mewn ffordd ddiddorol. Yn ystod y tymor, mae'r bws yn gweithio gydag ysgolion, ac yn ystod gwyliau'r ysgol, mae wedi ymuno â digwyddiadau cymunedol lleol, gan gynnwys, er enghraifft, mentrau Cychwyn Cadarn, cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol, a 'Gwersyll Tewdra'. Rhoddir yr ystyriaeth gyntaf i ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.

Cydweithio ar Orfodi[16]

Buom yn gweithio'n agos ag awdurdodau lleol a'u cynrychiolwyr a chyrff proffesiynol yn ystod ein pedair blynedd cyntaf i ddatblygu agenda gyfrannol. Rydym wedi datblygu ac atgyfnerthu cysylltiadau ag ymarferwyr cyfraith bwyd yr awdurdodau lleol drwy ein Gr p Cysylltu Gorfodi â'r awdurdodau lleol a'r llywodraeth. Er enghraifft, datblygasom ar y cyd y Cytundeb Fframwaith ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd gan awdurdodau lleol. Yn ddiweddarach, rydym wedi lansio Cod Ymarfer newydd; mae hwn yn ymbellhau oddi wrth gysylltu'n syml amlder yr arolygu â'r math o fwyd yr ymdrinnir ag ef, ac yn rhoi mwy o bwyslais ar ba mor effeithiol y mae busnesau'n rheoli risg. Rhydd y Cod hefyd yr hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddatblygu mesurau arolygu ar wahân i arolygu ar gyfer safleoedd bwyd o risg isel iawn.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos â Thollau Tramor a Chartref, y pedair adran amaethyddol yn y DU a'r awdurdodau iechyd porth-laddoedd a lleol ledled y DU i sicrhau bod rheolaethau bwyd a fewnforir yn bodoli ar y ffiniau ac yn fewndirol.

Yn y pum mlynedd nesaf byddwn yn::

- monitro ac adolygu'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd gan yr awdurdodau lleol
- datblygu a gweithredu ein strategaeth gyfathrebu, gan adeiladu ar y porth gorfodi newydd ar wefan yr Asiantaeth
- darparu hyfforddiant cost isel i swyddogion gorfodi'r awdurdodau lleol
- cefnogi awdurdodau lleol sy'n delio ag ymchwiliadau twyll bwyd mawr
- adolygu effeithioldeb y system rhybuddion bwyd
- cyhoeddi arfer da a gesglir mewn archwiliadau'r Asiantaeth o awdurdodau lleol a chanfyddiadau ein rhaglen ymchwil gorfodi
- rhoi arweiniad a chyngor technegol am faterion yn ymwneud â gorfodi
- datblygu ffyrdd o fesur canlyniadau gwaith gorfodi cyfraith bwyd a gwella amseroldeb a pherthnasedd data perfformiad yr awdurdodau lleol
- cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad gorfodi i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr ac i annog gwell perfformiad gan awdurdodau lleol
- cefnogi awdurdodau lleol wrth godi safonau systemau rheoli diogelwch bwyd a gweithio â'r diwydiant i lunio canllawiau ar gyfer y rheoliadau glanweithdra newydd
- chwarae ein rhan mewn mentrau ehangach i symleiddio cyfundrefnau gorfodi ac arolygu tra'n cynnal canlyniadau rhagorol o ran diogelu'r cyhoedd

Gweithio'n lleol

Byddwn yn helpu mynd i'r afael yn effeithiol â materion yn ymwneud â diogelwch bwyd, iechyd dietegol a thlodi bwyd trwy ddatblygu gwell partneriaethau â'r rheiny sy'n gweithio ar lefel genedlaethol yn y gwledydd datganoledig, ac ar lefel leol a rhanbarthol ledled y DU fel ei gilydd. Gwnawn hyn drwy:

- gweithio ag awdurdodau gorfodi lleol a'r cyrff cynrychioliadol, ar faterion yn ymwneud ag iechyd cyhoeddus ac addysg
- cyfrannu i strategaethau bwyd ac iechyd a chynlluniau gweithredu ar lefel leol neu ranbarthol. Yn Rhanbarthau Lloegr, er enghraifft, byddwn yn cynnal peilot o secondiadau neu gyfnewidiadau staff, a chymryd rhan mewn grwpiau llywio ar gyfer cynlluniau gweithredu bwyd ac iechyd. Yng Nghymru, byddwn yn parhau i

[16] gweler yr Atodiad ('Amdanom Ni') ar gyfer gorfodi glanweithdra cig

weithio gyda'r rhwydweithiau iechyd cyhoeddus perthnasol fel y byrddau iechyd lleol

- gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yn y gweinyddiaethau datganoledig, fel Asiantaeth Datblygu Cymru, Invest NI a'r sefydliadau Enterprise yn yr Alban
- gweithio gyda sefydliadau defnyddwyr sy'n gweithredu ar lefel leol, fel y Ffederasiwn Cenedlaethol o Sefydliadau Merched
- gweithio'n uniongyrchol â chymunedau lleol ar weithgareddau fel cynllun *Gwobr am Weithgarwch Bwyd Lleol* yng Nghymru, sy'n hyrwyddo gweithgarwch cadarnhaol ar ddiet a bwyta'n iach ar lefel gymunedol

Cynaladwyedd

Yr ASB a Datblygiad Cynaliadwy

"Cylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw amddiffyn lles defnyddwyr o ran bwyd, nawr ac yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, bydd yr Asiantaeth yn ystyried datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau a'i benderfyniadau polisi."

Byddwn yn cyfrannu at bolisi'r Llywodraeth gyfan drwy ystyried datblygiad cynaliadwy yn ein holl weithgareddau, gan gynnwys ein hystod lawn o bolisïau a gwneud penderfyniadau, ac wrth gynghori defnyddwyr.

Bydd ein gwaith i sefydlu datblygiad cynaliadwy yn digwydd mewn dwy ffordd:

- rhedeg ein busnes yn gynaliadwy
- datblygu ein cylch gwaith mewn ffordd gynaliadwy

Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried pedwar piler datblygiad cynaliadwy:

- amddiffyn yr amgylchedd
- cynnydd cymdeithasol
- defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth
- twf economaidd a chyflogaeth

Bydd amddiffyn lles defnyddwyr o ran bwyd yn dal yn brif flaenoriaeth i ni. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried cynaladwyedd wrth sicrhau bod ein penderfyniadau 'n gymesur a hefyd yn ddigon rhagofalus.

Egwyddorion Arweiniol y Llywodraeth

Wrth ystyried ein gweithredoedd, byddwn hefyd yn parhau i gyfrannu at hyrwyddo 10 egwyddor arweiniol y Llywodraeth sy'n berthnasol i ddatblygiad cynaliadwy. Rydym eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at y rhain pan fyddant yn berthnasol i'n swyddogaethau (gweler y blwch).

Datblygiad Cynaliadwy

10 Egwyddor Arweiniol y Llywodraeth	**Polisi'r ASB**
Gosod pobl yn y canol	Y cyntaf o'n gwerthoedd craidd yw gosod defnyddwyr yn gyntaf
Cael persbectif tymor hir	Wrth asesu cynaladwyedd ein polisïau, ein penderfyniadau a'n cyngor, byddwn yn

	ceisio cael persbectif tymor hir
Ystyried costau a buddion	Rydym yn rheoli risgiau bwyd yn gymesur wrth gydbwyso risgiau a buddion
Brwydro yn erbyn tlodi ac allgau cymdeithasol	Rydym yn blaenoriaethu mentrau sy'n helpu defnyddwyr dan anfantais a'r rheiny sy'n agored i ddioddef
Yr egwyddor ragofalus	Rydym yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus drwy weithredu i amddiffyn a rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr
Defnyddio gwybodaeth wyddonol	Rydym yn cymryd safbwynt diduedd yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol orau sydd ar gael
Eglurdeb, gwybodaeth, cyfranogiad a gallu cael cyfiawnder	Rydym yn gwrando ac yn datblygu'n polisïau bwyd yn agored ac yn eglur; rydym yn onest gyda defnyddwyr ac yn gwneud ein gorau i egluro'n penderfyniadau a'n cyngor mewn iaith glir, nad yw'n dechnegol
Creu system economaidd agored a chefnogol	Anelwn at fod yn rheoleiddiwr effeithiol ac i weithredu'n gymesur
Parchu cyfyngiadau amgylcheddol	Wrth sefydlu datblygiad cynaliadwy, byddwn yn asesu goblygiadau ein polisïau a'r ffordd yr ydym yn gweithredu ar gyfer adnoddau a'r amgylchedd
Gwneud i'r llygrwr dalu	Byddwn yn cysylltu â rheoleiddwyr priodol pan fydd hyn yn broblem

Bydd y targedau a'r cerrig milltir hyn yn ein helpu ni ac eraill i asesu ein cynnydd:

Rheoli ystadau

- byddwn yn gweithredu System Rheoli'r Amgylchedd yn seiliedig ar ISO 14001 erbyn 2006

Yr Asiantaeth fel cyflogwr

- bydd asesiad Buddsoddwyr mewn Pobl allanol canol-tymor ar ddiwedd 2005
- cwblheir meincnodi allanol ein Strategaeth Adnoddau Dynol erbyn mis Mai 2005

[Parhad ar y dudalen nesaf]

[Parhad o'r dudalen flaenorol]

Datblygu polisi, gwneud penderfyniadau a chyngor

- byddwn yn cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ar y mecanwaith arfaethedig i asesu goblygiadau cynaladwyedd polisi a chynigion eraill erbyn mis Chwefror 2005
- byddwn yn cynnal cynllun peilot o'r mecanwaith asesu erbyn yr hydref 2005
- byddwn yn dechrau darparu'r mecanwaith drwy'r Asiantaeth erbyn mis Rhagfyr 2006
- byddwn yn adolygu cynnydd yn y gwanwyn 2006

Ledled Ewrop ac yn rhyngwladol

Gweithio gyda gwledydd eraill a chyda sefydliadau rhyngwladol

Heddiw, gall ddefnyddwyr yn y DU ddewis bwyd o bob rhan o'r byd. A gellir masnachu bwyd yn rhydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd, heb unrhyw rwystrau. Golyga hyn bod yn rhaid i ni weithio gydag awdurdodau ac asiantaethau bwyd ar draws y byd i sicrhau diogelwch y cyflenwad bwyd.

Mae'r Asiantaeth yn cynghori Gweinidogion ynghylch cynigion deddfwriaethol yr UE, ac mae ei staff yn trafod rheoleiddio bwyd ar ran y DU, yn yr UE ac yn rhyngwladol. Rydym yn anelu i gyfrannu at ddatblygiad polisïau'r UE mor gynnar â phosibl, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â bwyta'n iach. Mae hyn yn golygu cynnal perthynas weithio dda gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, y Senedd Ewropeaidd a gwledydd eraill sy'n aelodau, yn ogystal â rhanddeiliaid. Y DU bydd yn llywyddu'r UE yn ail hanner 2005, ac yn ystod yr amser hwnnw, byddwn yn hyrwyddo rhaglen waith y Cyngor ar faterion yn ymwneud â chyfraith bwyd, yn enwedig y rhai hynny sy'n berthnasol i wybodaeth am faeth.

Mae gan yr UE bellach ei gorff ei hun sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor am ddiogelwch bwyd a phorthiant anifeiliaid – sef Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA), a sefydlwyd yn 2002. Rydym yn ffurfio cysylltiadau agos ag EFSA ac yn cyfranogi yn ei asesiadau diogelwch.

Rydym eisoes wedi dechrau creu cysylltiadau gydag asiantaethau bwyd eraill Ewrop drwy gynnal yn 2003 y cyntaf o gyfarfodydd rheolaidd rhwng Penaethiaid y cyrff hyn. Byddwn yn gweithredu i sicrhau ein bod yn cael rhybuddion cynnar pan fydd EFSA neu asiantaethau eraill yn darganfod problemau posibl gyda diogelwch bwyd.

Rydym hefyd yn ceisio dylanwadu ar y safonau a osodir ar gyfer bwyd a fasnachir ar hyd a lled y byd drwy waith y Comisiwn Codex Alimentarius[17], yn enwedig drwy sicrhau ein bod yn cyfrannu'n llawn i ddatblygu cyfraniad yr UE at drafodaethau Codex. A byddwn yn parhau i bwyso am fwy o ymwneud gan y defnyddiwr wrth ddatblygu safonau.

Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau ag awdurdodau bwyd y tu allan i'r UE – gan gynnwys y rhai hynny yn yr UDA, Canada, Awstralia a Seland Newydd.

Gweithio i archwilio bwydydd wedi eu mewnforio

- Yn 2004/05 byddwn yn ariannu 59 o brosiectau sy'n cynnwys dros 140 o awdurdodau lleol i archwilio bwydydd wedi eu mewnforio

[17] mae'r Comisiwn Codex Alimentarius (CAC) yn gorff rhynglywodraethol a noddwyd ar y cyd gan y Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO) a Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)

Yn ystod 2003/04, roeddem yn arwain prosiect i weithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth er mwyn sicrhau newid sylweddol wrth gydlynu a darparu archwiliadau gan awdurdodau lleol, a gorfodi rheoliadau bwydydd sy'n cael eu mewnforio a chynnyrch anifeiliaid. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ledled y DU i sicrhau nad yw unigolion yn dod â mewnforion bwyd anghyfreithlon i mewn i'r wlad.

Ein gwerthoedd craidd

Wrth wireddu canlyniadau'r cynllun strategol newydd hwn, byddwn yn ceisio:

- **bod yn driw i'n gwerthoedd craidd**
- **gweithio mewn ffordd integreiddiol ledled y DU, gan sicrhau ymagwedd gyson sy'n ddigon hyblyg i ystyried gwahaniaethau lleol**
- **datblygu ein sylfaen dystiolaeth er mwyn iddi gymryd i ystyriaeth y wyddoniaeth orau sydd ar gael**
- **dilyn gwell egwyddorion rheoleiddio**
- **arddangos ein hymrwymiad i ddatblygiad ein staff a'r ffordd rydym yn gweithio drwy arferion rheoli da sy'n bodloni egwyddorion 'Buddsoddwyr mewn Pobl'**

Ein gwerthoedd craidd

Byddwn yn rhoi'r defnyddwyr gyntaf; byddwn yn agored ac yn hygyrch; a byddwn yn llais annibynnol. Rydym yn ffurfio barn annibynnol, gan ystyried dadleuon a thystiolaeth gan ein rhanddeiliaid, a llunio'n penderfyniadau'n agored a'u hegluro'n glir i bawb y maent yn effeithio arnynt, yn enwedig y rheiny sy'n anghytuno.

Byddwn yn cynnal sgwrs â defnyddwyr a'u cynrychiolwyr, ac yn parhau i'w cynnwys wrth lunio polisïau. Yn benodol, byddwn yn parhau i geisio cael barn grwpiau sy'n 'anodd eu clywed'.

Gweithio'n effeithiol ledled y DU

Fel corff yn y DU, rydym yn cynghori ac yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn ogystal ag adrannau Whitehall. Mae ein Pwyllgorau Cynghori dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ein helpu i lunio polisïau a strategaethau sy'n ateb anghenion a diddordebau penodol y poblogaethau hynny o fewn fframwaith cyffredinol y DU. Mae'r ddogfen hon yn gosod ein cyfeiriad strategol cyffredinol a'n blaenoriaethau ledled y DU. Drwy ein swyddfeydd ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig, gallwn sicrhau ein bod yn gwireddu'r blaenoriaethau hyn mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau, sefyllfaoedd a threfniadau gweinyddol lleol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae FSANI yn gweithio gyda'r Bwrdd Hyrwyddo Diogelwch Bwyd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon ar faterion bwyd sy'n ymwneud ag Iwerddon gyfan , fel salwch a achosir gan fwyd.

Mae'r Asiantaeth wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Hil[18] sy'n dangos ein hymrwymiad i ategu llunio ein polisïau drwy hyrwyddo cydraddoldeb hil.

[18] yn unol â gofynion Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000

Datblygu ein sylfaen tystiolaeth

Rydym yn seilio ein polisïau ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ac yn gwneud ynamlwg beth yw honno.

Mae gennym bortffolio sylweddol o ymchwil ac arolygon. Byddwn yn datblygu hyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i'n helpu i ddarparu polisïau. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gydag eraill sy'n ariannu ymchwil (fel adrannau'r Llywodraeth, cynghorau ymchwil a'r UE) er mwyn sicrhau ein sylfaen tystiolaeth.

Chwiliwn am dystiolaeth gan arbenigwyr ledled y byd, yn benodol drwy ein rhwydwaith o bwyllgorau cynghori gwyddonol. Defnyddiwn arbenigedd ymchwil defnyddwyr a byddwn yn gwella ein mynediad i arbenigedd yn y gwyddorau cymdeithasol, economaidd ac ymddygiadol i gefnogi darparu ein nodau. Byddwn yn datblygu ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid ynghylch peryglon bwyd. Rydym yn datblygu ein gallu i chwilio'r gorwelion, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddysgu o'u harbenigedd a'u gwybodaeth.

Gwell Rheoleiddio

Swyddogaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw amddiffyn iechyd y cyhoedd. Gwnawn hyn drwy roi gwybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr, drwy gynghori'r Llywodraeth ar ddiogelwch a safonau bwyd, drwy reoleiddio a (thrwy'r Gwasanaeth Glanweithdra Cig ac awdurdodau lleol) arolygu a gorfodi. Ymdrechwn i ddilyn y pum egwyddor o well rheoleiddio: cymesurdeb, atebolrwydd, cysondeb, eglurder a thargedu. Byddwn yn ystyried dewisiadau ar wahân i reoleiddio, lle bydd cyfyngiadau cyfraith yr UE yn caniatáu hynny. Dylai rhanddeiliaid allu deall sut y defnyddiwyd gan yr Asiantaeth yr amryw ddarnau o dystiolaeth a gwybodaeth sydd ar gael wrth farnu pryd i ddefnyddio rheoleiddio uniongyrchol, a phryd i ddefnyddio dulliau gwahanol. Ceisiwn sicrhau bod ein gweithredoedd:

- yn gymesur, yn seiliedig ar risg ac yn canolbwyntio ar y canlyniadau
- yn annog gwelliannau ac yn gwobrwyo perfformiad da, gan ddilyn gweithredu cadarn yn erbyn y rhai hynny sy'n gyson yn methu cyrraedd safonau derbyniol
- yn ymarferol ac yn bosibl eu darparu

Byddwn yn gwella ystod a manylion ein gwaith i fesur effaith bosibl rheoliadau newydd, gan ystyried y gwahanol ofynion ym mhedair gwlad y DU. Byddwn yn asesu effaith dulliau dadreoleiddio er mwyn deall costau a buddion posibl yn well.

Yn y dyfodol, byddwn yn gwahaniaethu'n gliriach rhwng canllawiau arfer gorau a gweithredu rheoliadau.

Sicrhawn ein bod yn deall safbwyntiau ein rhanddeiliaid drwy ymgynghori â nhw yn rheolaidd[19]. Byddwn yn ceisio ymwneud yn fwy gweithredol â ddefnyddwyr wrth ddatblygu ein polisïau. Rhown ymateb i randdeiliaid ar y ffordd y mae eu safbwyntiau wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio polisïau.

Datblygiad ein staff a'n dull o weithio

Pan sefydlwyd yr ASB, ein blaenoriaeth bennaf oedd adeiladu hyder y cyhoedd drwy ddangos ein bod yn dechrau o'r newydd. Roedd rhoi ein gwerthoedd craidd ar waith yn golygu ffyrdd newydd, mwy agored o weithio. Ni fydd hynny'n newid. Ond mae ein cynllun newydd yn golygu newid ym mhwyslais ein gwaith, gyda ffocws cryfach ar ddarparu canlyniadau. Rydym eisiau datblygu ffyrdd mwy hyblyg o weithio er mwyn gwneud y defnydd gorau o sgiliau a brwdfrydedd ein staff, annog eu creadigrwydd a chydnabod a gwobrwyo eu cyfraniad. Anelwn at gefnogi a hyrwyddo amrywiaeth yn ein polisïau ac o fewn ein sefydliad. Rydym eisiau parhau i ddenu pobl sydd â'r sgiliau iawn ac sydd wedi ymrwymo i helpu'r ASB sicrhau canlyniadau ac amddiffyn defnyddwyr. Cawsom achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl ym mis Ebrill 2004. Byddwn yn parhau i weithio o fewn egwyddorion a gwerthoedd Buddsoddwyr Mewn Pobl. Yn benodol, byddwn yn datblygu ein staff er mwyn i'r sefydliad cyfan allu ymateb i'r her a osodwyd gan ein strategaeth newydd.

[19] yn ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, gan gynnwys fforymau ar gyfer rhanddeiliaid yr ASB. Sefydlwyd tri Fforwm ar gyfer Rhanddeiliaid yn 2003 i alluogi'r prif sefydliadau defnyddwyr a charfannau pwyso, y diwydiant ac awdurdodau gorfodi i godi materion sy'n achosi pryder eang yn anffurfiol

ATODIAD

AMDANOM NI

Pwy ydym ni

Mae'r ASB yn adran yn y Llywodraeth heb Weinidog, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac a lywodraethir gan Fwrdd a benodwyd i weithredu er budd y cyhoedd. Mae'r annibyniaeth hon yn hanfodol os ydym am lwyddo i roi'r defnyddiwr yn gyntaf. Rydym yn gorff DU-gyfan, sy'n atebol i Senedd San Steffan ac i'r gweinyddiaethau datganoledig drwy'r Gweinidogion Iechyd perthnasol.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at 12 aelod arall. O aelodau eraill y Bwrdd, penodwyd wyth ohonynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, penodwyd dau gan Weinidogion yr Alban, a phenodwyd un yr un gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r Adran Iechyd, Nawdd Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Bwrdd yn agored i archwilio cyhoeddus drwy ei gyfarfodydd agored.

Rheolir gweithrediadau beunyddiol yr ASB gan y Prif Weithredwr. Gweison sifil yw staff yr ASB, ac maent yn atebol i'r Bwrdd drwy'r Prif Weithredwr. Mae diogelwch a safonau bwyd yn faterion sydd wedi eu datganoli. Mae gan yr ASB swyddfeydd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a phob un yn atebol i Brif Weithredwr yr ASB.

- Mae ASB Gogledd Iwerddon yn rhoi cyngor a deddfwriaeth ddrafft ar faterion ar draws y gadwyn fwyd i Weinidog Cynulliad Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb dros Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd. Mae Pwyllgor Ymgynghorol statudol Gogledd Iwerddon, a gadeirir gan aelod Bwrdd yr ASB tros Ogledd Iwerddon, yn rhoi cyngor annibynnol ar faterion yn ymwneud â bwyd yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan FSANI gysylltiad agos â'r Bwrdd Hyrwyddo Diogelwch Bwyd ac Awdurdod Diogewlch Bwyd Iwerddon ynghylch materion sydd yn ymwneud ag Iwerddon gyfan.

- Yn yr Alban, mae'r ASB yn rhoi cyngor i Senedd yr Alban ar ddeddfwriaeth arfaethedig drwy'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymunedol. Mae Pwyllgor Ymgynghori yr Alban ar Fwyd, a gadeirir gan un o'r ddau aelod o Fwrdd yr ASB dros yr Alban, yn rhoi cyngor annibynnol am faterion yn ymwneud â diogelwch a safonau bwyd yn yr Alban.

- Mae ASB Cymru yn rhoi cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar bolisi a deddfwriaeth diogelwch a safonau bwyd. Mae Pwyllgor statudol Ymgynghorol Cymru am Fwyd (y Pwyllgor Cynghori dros Gymru gynt), a gadeirir gan aelod Bwrdd yr ASB dros Gymru, yn rhoi cyngor annibynnol ar yr holl faterion sy'n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd yng Nghymru.

Ein diben a'n gwerthoedd

Mae rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf yn golygu:

- Gwneud diogelwch bwyd yn flaenoriaeth bennaf
- Sicrhau bod gan bobl y wybodaeth a'r cyfleoedd i wneud dewis am fwyd
- Galluogi pobl i ddeall peryglon a manteision

Ein nod yw gweithredu'n gymesur â risg, gan seilio ein penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Cydnabyddwn nad oes y fath beth yn bod â dim risg o gwbl, ond yn hytrach, anelwn at leihau risg i lefel sy'n dderbyniol i'r defnyddiwr cyffredin, tra'n ystyried y risg i grwpiau hawdd i'w niweidio.

Lle bo ansicrwydd gwyddonol, ond lle bo risg o niwed difrifol i iechyd y cyhoedd, rydym yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus trwy weithredu i leihau'r peryglon i iechyd. Ni adawn i ddiffyg sicrwydd ohirio gweithredu'n gymesur.

Golyga bod yn agored:

- Geisio safbwynt pobl a bod yn hygyrch
- Gwneud ein trafodaethau am bolisïau yn gyhoeddus
- Egluro'r rhesymau dros ein penderfyniadau a'n cyngor
- Cyfathrebu mewn ffordd uniongyrchol ac amserol
- Cyhoeddi ein targedau

Rydym ni'n onest â'r defnyddwyr, a gwnawn ein gorau i egluro ein penderfyniadau mewn ffordd glir ac i gyfleu risg ac ansicrwydd mewn iaith nad yw'n dechnegol. Ceisiwn nodi'r cyfryngau gorau i drosglwyddo ein negeseuon, gan gofio pobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd a phobl nad ydynt yn siarad Saesneg yn iaith gyntaf. Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd i wella tryloywder a bod yn agored.

Mae llais annibynnol yn golygu:

- Bod yn ddiduedd ac yn onest
- Seilio ein penderfyniadau ar y cyngor arbenigol gorau
- Ennill parch rhyngwladol ar safonau diogelwch a maeth bwyd yn y DU
- Cyhoeddi ein cyngor

Rydym yn llais annibynnol o fewn y Llywodraeth, sy'n gallu rhoi cyngor a'i gyhoeddi heb ofyn yn gyntaf am ganiatâd Gweinidogion. Er mwyn i chi allu bod yn sicr am yr

hyn yr ydyn yn ei ddweud wrth Lywodraeth y dydd, rydym ni'n cyhoeddi'r cyngor a rown i Weinidogion am yr hyn y mae angen ei wneud er mwyn diogelu iechyd cyhoeddus.

Ein swyddogaeth wrth orfodi cyfraith bwyd

Gweithiwn drwy ein Asiantaeth Weithredol, y Gwasanaeth Glanweithdra Cig, ynd Nghaer Efrog (ac Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) yng Ngogledd Iwerddon), a chydag awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd, i sicrhau gorfodaeth effeithiol a chymesur ar y ddeddfwriaeth ynghylch bwyd. Gweithiwn gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd er mwyn sicrhau safonau uchel o orfodi cyfraith bwyd a phorthiant.

—Mae ein Asiantaeth Weithredol, y Gwasanaeth Glanweithdra Cig, yn ein helpu i amddiffyn y cyhoedd yn erbyn afiechyd a achosir gan fwyd drwy orfodaeth deg, cyson ac effeithiol o reoliadau lles, arolygu a glanweithdra ym Mhrydain Fawr. Ei brif swyddogaethau yw:

- gorfodi'r ddeffdwriaeth ynghylch glanweithdra cig mewn adeiladau sydd â thrwydded ar gyfer cig ffres
- darparu ar gyfer arolygu cig a rheoli marcio o ran iechyd mewn adeiladau â thrwyddedau ar gyfer cig coch, cig dofednod a helgig gwyllt
- gorfodi rheoli glanweithdra mewn cynnyrch cig, cig mâl a safleoedd paratoi cig, sydd wedi'u lleoli ar y cyd â lladd-dai trwyddedig
- gorfodi, mewn safleoedd â thrwydded ar gyfer cig ffres, rheoli Deunydd Risg Penodol a sgil gynnyrch arall oddi wrth anifeiliaid, a'r rheoliadau sy'n gwahardd gwerthu cig gwartheg dros 30 mis oed
- gorfodi rheolau lles anifeiliaid wrth eu lladd mewn lladd-dai trwyddedig

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Gwasanaeth Glanweithdra Cig oddi ar ein gwefan – www.food.gov.uk

Yng Ngogledd Iwerddon, cyflawnir y swyddogaeth au cyfatebol gan DARD ar ran yr ASB

Archwiliwn awdurdodau lleol unigol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd yn unol â darpariaethau'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd gan Awdurdodau Lleol a Chodau Ymarfer a wnaed o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Darganfyddwch fwy amdanom ni a'n gwaith

Am wybodaeth ynghylch polisïau a gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, ewch i'n gwefan ar www.food.gov.uk

I gael diweddariad misol ar yr hyn y buom yn ei wneud, gallwch dderbyn *FSA News.* I gael eich cynnwys ar y rhestr bostio, ffoniwch 020 7276 8829.

Gallwch gael cyhoeddiadau oddi ar ein gwefan neu oddi wrth Gyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd.
I archebu copïau:
Ffôn 0845 606 0667
Minicom 0845 606 0678
Ffacs 020 8867 3225
E-bost foodstandards@eclogistics.co.uk

Gwybodaeth am ein dull o weithredu

- Food Standards Agency. Statement of General Objectives and Practices. Hydref 2000
- Code of Practice on Openness
- Code of Conduct (for Board Members)
- Standards of Service
- Food Standards Agency. Approach to Risk. Mai 2001

Sut i gysylltu â ni

Am fwy o wybodaeth ynghylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd cysylltwch â:

Lloegr
Ffôn +44 20 7276 8000
Food Standards Agency
Aviation House, 125 Kingsway
London WC2B 6NH

Gogledd Iwerddon
Ffôn +44 28 9041 7700
Food Standards Agency (Northern Ireland)
10C Clarendon Road
Belfast BT1 3BG

Yr Alban
Ffôn +44 1224 285100
Food Standards Agency (Scotland)
St Magnus House
6th Floor 25 Guild Street
Aberdeen AB11 6NJ

Cymru
Ffôn+44 29 2067 8999
Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru)
T Southgate
Llawr 11, Wood Street
Caerdydd CF10 1EW

Y Gwasanaeth Glanweithdra Cig
Ffôn +44 1904 455501
Foss House, Kings Pool
Peasholme Green
York YO1 7PR

Anfonwch neges e-bost atom: helpline@foodstandards.gsi.gov.uk

Ein gwefan: www.food.gov.uk

Nodiadau a Chyfeiriadau

1. Government White paper 'The Food Standards Agency – a force for change' 1998 - *(Papur gwyn y Llywodraeth 'The Food Standards Agency – a force for change' 1998)*

2. Food Standards Agency annual Consumer Attitudes Survey: www.food.gov.uk/yourviews/surveys/foodsafety-nutrition-diet/ - *(Arolwg Agweddau Defnyddwyr blynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd: www.food.gov.uk/yourviews/ surveys/foodsafety-nutrition-diet/)*

3. Adak G K, Long S M, O'Brien S J. Gut 2002; 51: 832-841 – (Ad*ak G K, Long S M, O'Brien S J. Gut 2002; 51: 832-841)*

4. Full Regulatory Impact Assessment proposals to Consolidate EU Food Hygiene Legislation, Food Standards Agency. March 2004 - *(Cynigion Asesiad Llawn Effaith Reoleiddiol i gydgrynhoi deddfwriaeth Hylendid Bwyd yr UE, Asiantaeth Safonau Bwyd. Mawrth 2004)*

5. Information on the surveillance programme and action arising from it can be found on www.food.gov.uk – *(Gellir cael gwybodaeth am y rhaglen wyliadwriaeth a'r gweithredu sy'n digwydd o ganlyniad iddi yn www.food.gov.uk*)

6. Butriss J, Schenker S. Introduction and definitions in *Adverse Reactions to Food* (Ed J Butriss). British Nutrition Foundation, 2002 – *(Butriss J, Schenker S. Cyflwyniad a Diffiniadau yn Adverse Reactions to Food (Ed J Butriss). Sefydliad Maetheg Prydain, 2002)*

7. Bingley PJ *et al*. Undiagnosed coeliac disease at age seven: population based prospective birth cohort study. British Medical Journal 2004; 7435: 322-323 - *(Bingley PJ et al. Clefyd coliac heb ei ddiagnosio yn 7 oed: astudiaeth o ddarpar garfan geni yn seiliedig ar boblogaeth. British Medical Journal 2004; 7435: 322-323)*

8. Ewan PW, Clark AT. Management of Peanut Allergy. The Lancet 2001; 357 (9267): 1531 – *(Ewan PW, Clark AT. Management of Peanut Allergy. The Lancet 2001; 357 (9267): 1531)*

9. Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faetheg. Salt and Health. Y Llyfrfa , 2003 – *(Scientific Advisory Committee on Nutrition. Salt and Health. The Stationery Office, 2003)*

10. Department of Health. The Annual Report of the Chief Medical Officer of the Department of Health, 2001 – *(Yr Adran Iechyd. The Annual Report of the Chief Medical Officer of the Department of Health, 2001)*

11. British Heart Foundation. Deaths by cause, sex and age, 2001, United Kingdom. www.heartstats.org – (Sefydliad Prydeinig y Galon. Marwolaethau yn ôl achos, rhyw ac oedran, 2001, Y Deyrnas Unedig. www.heartstats.org)

12. European Heart Network (1998) Food, Nutrition and Cardiovascular Disease in the European Union. EHN: Brussels – *(Rhwydwaith y Galon Ewrop (1998) Food, Nutrition and Cardiovascular Disease in the European Union. EHN: Brwsel)*

13. Doll R, Peto R. The causes of cancer: quantitative estimates of avoidable risks of cancer in the United States today. Journal of the National Cancer Institute 1981; 66: 1191-1308.

14. Adroddiad gweithgor Coleg Brenhinol y Meddygon, Coleg Brenhinol er Pediatreg ac Iechyd Plant a'r Gyfadran dros Feddygaeth Iechyd Cyhoeddus. Storing up problems: The medical case for a slimmer nation. Coleg Brenhinol y Meddygon, 2004 – *(Report of a working party of the Royal College of Physicians, Royal College of Paediatrics and Child Health and the Faculty of Public Health Medicine. Storing up problems: The medical case for a slimmer nation. Royal College of Physicians, 2004)*

15. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Tackling obesity in England. Adroddiad gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Norwich: Y Llyfrfa, 2001 www.nao.gov.uk/guidance/chiefexec2b.htm - *(National Audit Office. Tackling obesity in England. Report by the Comptroller and Auditor General. Norwich: The Stationery Office, 2001 www.nao.gov.uk/guidance/chiefexec2b.htm)*

16. Yr Adran Iechyd. Dietary Reference Values for Food Energy and Nutrients for the United Kingdom. Llundain: HMSO 1991 (Report on Health and Social Subjects, No 41) – *(Department of Health. Dietary Reference Values for Food Energy and Nutrients for the United Kingdom. London: HMSO 1991 (Report on Health and Social Subjects, No 41)*